Estyn

# Arweiniad i Arolygwyr

## Beth rydym yn ei arolygu (2024-2030): dysgu oedolion yn y gymuned



Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|

**Cyflwyniad i 'Beth rydym yn ei arolygu' .......................................................... 1**
Gwerthuso pob maes arolygu (MA)...................................................................... 1
Yr adroddiad arolygu ............................................................................................. 1
Ynglŷn â'r bartneriaeth ........................................................................................... 1
Ystod y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr arolygiad................................ 2
Meysydd arolygu ................................................................................................... 4
**Fframwaith ar gyfer arolygu partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned... 5**
Maes Arolygu 1 – Addysgu a dysgu ...................................................................... 5
Maes Arolygu 2  Lles, gofal, cymorth ac arweiniad ............................................. 7
Maes Arolygu 3 – Arwain a gwella ........................................................................ 9

## Cyflwyniad i 'Beth rydym yn ei arolygu'

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu beth mae angen i arolygwyr ei ystyried wrth werthuso'r tri maes arolygu mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'n esbonio 'Beth rydym yn ei arolygu'. Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer arolygwyr cofnodol a holl aelodau eraill y tîm arolygu, gan gynnwys yr enwebai. Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer darparwyr i gefnogi eu dealltwriaeth o'r arweiniad arolygu. Mae llawlyfr ar wahân sy'n esbonio'r broses a'r fethodoleg arolygu o'r enw 'Sut rydym yn arolygu mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned'.

Mae'r tri maes arolygu wedi'u hamlinellu isod:

MA1 Addysgu a dysgu

MA2 Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

MA3 Arwain a gwella

Mae mwy o wybodaeth am arolygiadau ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru

### Gwerthuso pob maes arolygu (MA)

Ni fydd timau arolygu'n rhoi graddau cyffredinol ar gyfer pob maes arolygu. Fodd bynnag, byddant yn llunio gwerthusiad cadarn a thrylwyr o ddarpariaeth y bartneriaeth a'i heffaith ar ddysgu a lles. Bydd arolygwyr bob amser yn cynnwys gwerthusiadau clir yn gysylltiedig â'r prif agweddau ym mhob maes arolygu, fel y dangosir isod. Fodd bynnag, efallai y bydd yr hyn y mae arolygwyr yn adrodd arno ym mhob maes arolygu yn wahanol yn dibynnu ar gyd-destun ac arwyddocâd cymharol yr hyn y maent yn dod o hyd iddo ym mhob partneriaeth. Gallai arolygwyr adrodd 'trwy eithriad'. Mae hyn yn golygu y gallent adrodd ar rai agweddau dim ond lle mae cryfderau penodol neu feysydd penodol i'w gwella.

Pan mae arolygwyr yn nodi unrhyw arfer ddiddorol neu arloesol a allai fod yn werth ei rhannu'n ehangach, byddant yn cynnwys darn byr, 'sbotolau ar...' o fewn yr adroddiad (paragraff byr). Byddwn yn arddangos amrywiaeth o'r sbotoleuadau hyn ar ein gwefan. Pan mae arolygwyr yn nodi diffygion difrifol mewn un maes arolygu neu fwy, bydd gweithgarwch dilynol fel arfer yn cael ei drefnu ar gyfer y bartneriaeth. Ceir mwy o arweiniad am weithgarwch dilynol yn 'Sut rydym yn arolygu'.

### Yr adroddiad arolygu

Ar ôl arolygiad, bydd pob partneriaeth yn derbyn adroddiad. Bydd yr adroddiadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Estyn. Gellir dod o hyd i ddyddiadau cyhoeddi ar y wefan. Mae'r canlynol yn amlinellu beth sydd wedi'i gynnwys ym mhob adran o'r adroddiad.

### Ynglŷn â'r bartneriaeth

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn fyr ac yn cynnwys gwybodaeth gefndir ffeithiol yn unig am y bartneriaeth. Ni fydd yn cynnwys unrhyw werthusiad o'r ddarpariaeth. Bydd yr arolygydd cofnodol fel arfer yn cytuno ar gynnwys yr adran hon gydag enwebai'r bartneriaeth yn ystod yr arolygiad ac yn ystod y gwiriad ffeithiol o'r adroddiad drafft cyn ei gyhoeddi. Y data a gyflwynir fydd y data cenedlaethol

diweddaraf sydd wedi cael ei wirio a'i gyhoeddi, gyda'r ffynonellau'n cael eu cydnabod mewn troednodiadau, lle bo modd. Os oes anghytundeb am gynnwys yr adran hon, yr arolygydd cofnodol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â beth i'w gynnwys yn yr adroddiad. Bydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth fras am y canlynol:

- Awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'r darparwr a phartneriaid cyflwyno allweddol (ar ffurf map)
- Unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf
- Nifer y dysgwyr adeg yr arolygiad [gwybodaeth gan y darparwr]. Nifer y dysgwyr yn y flwyddyn academaidd lawn [gwybodaeth gan Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru]
- Manylion am raglenni'r bartneriaeth, o ran cyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (SSIE a medrau sylfaenol) ac ystod o gyrsiau eraill (hamdden / adfer costau)

Ynglŷn â'r dysgwyr ar gyrsiau'r bartneriaeth

- Proffil oedran
- Cyfran y dysgwyr o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig
- Cyfran y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd neu sy'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg
- Canran y dysgwyr sy'n byw mewn cyd-destunau sydd dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol (y ddau gwintel uchaf ym MALIC - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)

Ynglŷn â'r boblogaeth yn ardal y bartneriaeth

- Proffil oedran
- Cyfran y boblogaeth o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig
- Cyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd neu sy'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg
- Canran y boblogaeth sy'n byw mewn cyd-destunau sydd dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol (y ddau gwintel uchaf ym MALIC – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)
- Lefelau cymhwyster oedolion yn ardal y bartneriaeth

**Ystod y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr arolygiad**

Mae arolygiadau o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn gwerthuso'r holl ddarpariaeth graidd a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer medrau sylfaenol i oedolion (llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol), yn ogystal â'r holl ddarpariaeth addysg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) a gwmpesir ar draws ardal ddaearyddol y bartneriaeth, yn ystod lawn y sefydliadau a'r lleoliadau. Bydd arolygiadau hefyd yn samplu cyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer diddordeb a lles personol, a darpariaeth lawn adfer costau a drefnir gan y bartneriaeth.

**Crynodeb**

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg cryno o'r prif ganfyddiadau yn yr adroddiad.

## Argymhellion

Dylai argymhellion ddod yn uniongyrchol o gynnwys yr adroddiad, nodi beth mae angen ei wella, a'u hysgrifennu yn nhrefn eu blaenoriaeth.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr adran 'Beth sy'n digwydd nesaf' yn amlinellu'r hyn mae angen i'r darparwr ei wneud ar ôl yr arolygiad. Ym mhob achos, bydd disgwyl i arweinwyr ymateb i'r argymhellion trwy roi'r camau priodol ar waith i wneud y gwelliannau a nodwyd gan y tîm arolygu.

Bydd yr adran hon yn esbonio p'un a oes angen gweithgarwch dilynol ar y ddarpariaeth. Dylai'r rhesymau dros lefel y gweithgarwch dilynol fod yn glir ym mhrif gorff yr adroddiad.

## Gwybodaeth ychwanegol

Bydd yr adran hon yn cynnwys datganiad ar yr eitem ganlynol:

## Trefniadau diogelu

Datganiad i nodi p'un a yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu pobl ifanc ac oedolion bregus ddim yn peri pryder o gwbl, neu p'un a oes achosion pryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Bydd arolygwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i wneud yn siŵr bod eu canfyddiadau yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn esbonio'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiodd arolygwyr, yn ogystal ag ystod y gweithgareddau a wnaethant yn ystod eu hymweliad.

**Meysydd arolygu**

Mae'r adran ganlynol yn esbonio beth mae pob maes arolygu yn ei gwmpasu a beth mae angen i arolygwyr ei gadw mewn cof wrth werthuso pob un. Mae'r meysydd arolygu wedi'u rhifo yn 1 – 3, ond maent i gyd yr un mor bwysig â'i gilydd.

| MA1 – Addysgu a dysgu | MA2 – Lles, gofal, cymorth ac arweiniad | MA3 – Arwain a gwella |
|---|---|---|
| **Ffocws**<br>Pa mor effeithiol y mae'r bartneriaeth yn cefnogi dysgu'r holl ddysgwyr<br>**1.1** Safonau gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau dysgwyr, gan gynnwys eu medrau Cymraeg<br>**1.2** Agweddau dysgwyr at ddysgu<br>**1.3** Ansawdd profiadau dysgu, addysgu ac asesu | **Ffocws**<br>Pa mor effeithiol y mae'r bartneriaeth yn cefnogi lles yr holl ddysgwyr<br>**2.1** Yr effaith ar les a datblygiad personol dysgwyr<br>**2.2** Effeithiolrwydd y cymorth, y cyngor a'r arweiniad i ddysgwyr i helpu dysgwyr i ddatblygu fel unigolion a goresgyn unrhyw anfantais y gallent ei hwynebu<br>**2.3** Effeithiolrwydd arferion diogelu a'r diwylliant diogelu | **Ffocws**<br>Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth<br>**3.1** Cyfeiriad strategol a rheolaeth weithredol<br>**3.2** Hunanwerthuso a gwelliant<br>**3.3** Cynllunio a goruchwylio'r ddarpariaeth<br>**3.4** Datblygu'r gweithle a dysgu proffesiynol |

Mae cyfres o ddogfennau arweiniad atodol ar gael ar ein gwefan. Mae'r rhain yn darparu mwy o wybodaeth am ein hymagweddau at arolygu agweddau amrywiol ar y fframwaith hwn.

# Fframwaith ar gyfer arolygu partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned

Ar draws y meysydd arolygu, dylai arolygwyr ystyried yr effaith ar bob un o'r dysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o gael deilliannau anffafriol, er enghraifft dysgwyr sydd wedi'u heffeithio gan dlodi, dysgwyr sydd ag ADY neu rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd.

**Maes Arolygu 1 – Addysgu a dysgu**

Pa mor effeithiol y mae'r bartneriaeth yn cefnogi dysgu'r holl ddysgwyr

1.1 Safonau gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau dysgwyr, gan gynnwys eu medrau Cymraeg

1.2 Agweddau dysgwyr at ddysgu

1.3 Ansawdd y profiadau dysgu, addysgu ac asesu

**1.1 Safonau gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau dysgwyr, gan gynnwys eu medrau Cymraeg**

(Sylwer: mae'r pwyntiau bwled hyn mewn mwy o drefn ddysgu gronolegol yn hytrach na hierarchaeth pwysigrwydd)

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr:

- yn galw dysgu blaenorol i gof
- yn datblygu medrau meddwl
- yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd
- yn datblygu medrau ymarferol, lle bo'n briodol, gan gynnwys medrau a chrefft sy'n benodol i bwnc neu alwedigaeth
- yn cymhwyso'u gwybodaeth, eu medrau a'u profiad i gyd-destunau newydd
- yn dangos creadigrwydd, yn cynnwys datrys problemau creadigol
- yn datblygu eu medrau llafaredd (siarad / gwrando) a'u medrau llythrennedd (darllen / ysgrifennu)
- yn datblygu eu dealltwriaeth a'u defnydd o'r Gymraeg, beth bynnag yw eu mannau cychwyn, i gefnogi eu gyrfaoedd a'u rhyngweithio cymdeithasol yn y dyfodol
- yn datblygu medrau rhifedd a digidol
- yn gwneud cynnydd o'u mannau cychwyn
- yn cyflawni deilliannau cymhwyster cryf ar lefel a gradd addas, lle bo'n berthnasol
- yn dangos cynnydd tymor hir tuag at eu nodau dysgu personol ac at gyrchfannau cadarnhaol mewn addysg, hyfforddiant, cyflogaeth neu fyw yn annibynnol
- yn datblygu ac yn defnyddio'u medrau Cymraeg yng nghyd-destun eu cyrsiau ac i'w defnyddio yn eu cymunedau a'u bywydau bob dydd

## 1.2 Agweddau dysgwyr at ddysgu

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae dysgwyr:

- yn ymgysylltu'n llawn â dysgu
- yn mwynhau dysgu, yn dal ati i ganolbwyntio, ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith
- yn gwrando'n ofalus ar diwtoriaid a chyfoedion, gan gyfrannu'n adeiladol at drafodaethau a gwaith grŵp, wyneb yn wyneb ac ar-lein
- yn ymgymryd yn gadarnhaol â thasgau, ac yn dyfalbarhau trwy anawsterau
- yn datblygu hyder ac wedi'u cymell i ddysgu
- yn datblygu hyder, cymhelliant, a dealltwriaeth o'u cryfderau a'u meysydd i'w datblygu, ac yn gwybod beth i'w wneud i wella
- yn gweithio'n annibynnol, yn gwneud ymchwil ychwanegol, ac yn defnyddio adborth i ymestyn dysgu
- yn rhagweithiol wrth ofyn am gymorth a dal i fyny â gwaith a fethwyd
- yn dangos parch at gyfraniadau pobl eraill ac yn cynnal ymddygiad priodol ar-lein
- yn ymgymryd â phrofiadau a syniadau newydd
- yn deall sut mae dysgu'n eu helpu i ddatblygu i fod yn unigolion hyderus ac yn aelodau gwerthfawr o gymdeithas, yn cyfrannu at gyflogaeth, cymunedau, neu gyfrifoldebau cefnogi rhianta / gofalu

## 1.3 Ansawdd profiadau dysgu, addysgu ac asesu

Wrth werthuso'r addysgu, dylai arolygwyr nodi nad oes unrhyw fethodoleg a ffefrir na thempled penodedig, a gall tiwtoriaid ddefnyddio ystod o wahanol ddulliau. Yr ystyriaeth allweddol yw p'un a yw'r addysgu'n ennyn dysgwyr ac yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau.

Dylent ystyried pa mor dda y mae tiwtoriaid ac ymarferwyr:

- yn deall ac yn cymhwyso addysgegau a thechnegau rheoli ystafell ddosbarth oedolion
- yn cynllunio ac yn strwythuro'r addysgu yn effeithiol, gan ystyried nodau unigol, profiadau blaenorol, rhwystrau cymdeithasol, anghenion dysgu ychwanegol a dyheadau dysgwyr sy'n oedolion
- yn dangos hyblygrwydd mewn cynllunio ac addysgu, gan ymestyn dysgwyr ond eu galluogi i wneud cynnydd ar gyflymdra sy'n addas iddyn nhw eu hunain, gan ystyried diddordebau a syniadau dysgwyr
- yn darparu cymorth priodol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol
- yn asesu cynnydd dysgwyr yn rheolaidd, ac yn rhoi adborth sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu
- yn helpu dysgwyr i fyfyrio ar eu cynnydd eu hunain, gwybod eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella, a beth mae angen iddynt ei wneud i wella
- yn arwain dysgwyr at y camau nesaf priodol yn eu dysgu a'u dilyniant
- yn cynllunio ac yn addysgu i fodloni gwahanol lefelau dysgu mewn un dosbarth
- yn defnyddio holi i helpu dysgwyr i wneud cynnydd
- yn sicrhau bod cyflymdra'r sesiwn yn cyd-fynd â dealltwriaeth, anghenion a dyheadau dysgwyr
- yn defnyddio adnoddau a deunyddiau i ennyn diddordeb, ehangu gwybodaeth a

datblygu medrau
- yn sicrhau bod y dysgu yn ddifyr, yn gadarnhaol ac yn gynhwysol
- yn annog dysgwyr i ymgysylltu â sesiynau, cynorthwyo'u cyfoedion, cyfrannu at drafodaethau a dysgu i'w llawn botensial
- yn cyflwyno'n ddwyieithog, lle bo'n briodol
- yn datblygu ymwybyddiaeth o fanteision dysgu dwyieithog, ac yn annog siaradwyr Cymraeg i gefnogi medrau iaith eu cyfoedion
- yn sicrhau bod adnoddau'n darparu terminoleg allweddol yn Gymraeg a Saesneg, ac yn cynnwys enghreifftiau o ddiwylliant a chyd-destun Cymru, lle bo'n briodol
- yn cyfeirio dysgwyr at bartneriaethau neu sefydliadau cymunedol am fwy o gyfleoedd datblygu a dysgu yn y Gymraeg ar draws y maes arolygu.

**Maes Arolygu 2  Lles, gofal, cymorth ac arweiniad**

Pa mor effeithiol y mae'r bartneriaeth yn cefnogi lles pob un o'r dysgwyr

2.1 Yr effaith ar les a datblygiad personol dysgwyr

2.2 Effeithiolrwydd y cymorth, y cyngor a'r arweiniad i ddysgwyr i helpu dysgwyr i ddatblygu fel unigolion a goresgyn unrhyw anfantais y gallent ei hwynebu

2.3 Effeithiolrwydd arferion diogelu a'r diwylliant diogelu

**2.1 Yr effaith ar les a datblygiad personol dysgwyr, gan ystyried y math o ddarpariaeth y maent yn cymryd rhan ynddi**

Bydd arolygwyr yn gwerthuso sut mae cyfranogiad mewn cyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u cynllunio ar gyfer ymgysylltu o'r newydd ag addysg, diddordeb personol, a darpariaeth graidd mewn medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, yn cefnogi lles a datblygiad personol dysgwyr. Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried sut mae cyrsiau nad ydynt yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, neu glybiau a gefnogir gan y bartneriaeth, yn cyfrannu at les cyfranogwyr ac arlwy'r bartneriaeth.

At ei gilydd, ar draws y gwahanol fathau o ddarpariaeth, dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae dysgwyr:

- yn teimlo'n ddiogel, yn saff ac yn rhydd oddi wrth gam-drin
- yn teimlo'u bod yn cael eu trin yn deg, a'u parchu
- yn teimlo bod eu darparwr yn gwrando arnynt, ac yn ymateb iddynt yn effeithiol
- yn mynychu eu gweithgareddau dysgu cynlluniedig ac yn rheoli eu hymrwymiadau'n effeithiol
- yn datblygu i fod yn unigolion hyderus sy'n gallu byw bywydau boddhaus yn aelodau gwerthfawr o gymdeithas
- yn dangos hunanymwybyddiaeth
- yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain, lle bo'n briodol
- yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth
- yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi perthnasoedd iach ac yn ymateb yn briodol i ymddygiadau afiach

- yn ystyriol ac yn gefnogol o'u cyfoedion, eu tiwtoriaid, a phobl eraill
- yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn barchus mewn gwahanol gyd-destunau, gan gynnwys ar-lein
- yn uchelgeisiol a hyderus ac yn dangos gwydnwch mewn bywyd a dysgu
- yn uchelgeisiol a hyderus

**2.2 Effeithiolrwydd y cymorth, y cyngor a'r arweiniad i ddysgwyr i helpu dysgwyr i ddatblygu fel unigolion a goresgyn unrhyw anfantais y gallent ei hwynebu**

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth:

- yn darparu cymorth ar gyfer lles corfforol, meddyliol, emosiynol a chymdeithasol dysgwyr, gan sicrhau eu bod yn mwynhau eu dysgu, ac yn elwa arno
- yn cefnogi presenoldeb dysgwyr ac yn olrhain eu cynnydd, eu lles, eu hymgysylltiad, a'u hymddygiad
- yn nodi ac yn ymateb i bryderon trwy ymyriadau fel tiwtora, mentora, hyfforddi, neu gwnsela
- yn cydweithio â sefydliadau eraill ac asiantaethau arbenigol i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr
- yn darparu cymorth ymatebol ar gyfer dysgwyr bregus a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar sail eu galluoedd, eu hanghenion a'u rhwystrau unigol
- yn cynorthwyo dysgwyr sydd â phroblemau ymddygiadol ac ymgysylltu i ddatblygu ymddygiadau priodol ac agweddau priodol at ddysgu
- yn helpu dysgwyr i ddeall egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant, aflonyddu, gwahaniaethu, eithafiaeth, a phwysigrwydd goddefgarwch a pharch
- yn herio stereoteipiau ac yn hyrwyddo dealltwriaeth o berthnasoedd iach
- yn meithrin dealltwriaeth dysgwyr o'u diwylliant, eu cymuned, Cymru, a'r byd ehangach, gan annog cyfranogiad yn y gymuned
- yn hyrwyddo dewisiadau iach am ffordd o fyw, yn cynnwys diet, camddefnyddio sylweddau, diogelwch ar-lein, iechyd meddwl a rheoli baich gwaith
- yn darparu cyngor ac arweiniad diduedd, naill ai'n uniongyrchol neu drwy asiantaethau allanol, ar addysg, llwybrau hyfforddiant, opsiynau gyrfa a chyfleoedd eraill; a phontio i addysg bellach, cyflogaeth neu fyw yn annibynnol

**2.3 Effeithiolrwydd arferion diogelu a'r diwylliant diogelu**

Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae trefniadau diogelu'r darparwr:

- yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant diogelwch
- yn sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn cael eu hamddiffyn ar y safle, oddi ar y safle ac ar-lein
- yn nodi dysgwyr dan 18 oed ac oedolion bregus mewn angen neu sydd mewn perygl o niwed sylweddol
- yn sicrhau arferion recriwtio diogel a chadarn
- yn gwirio ac yn cofnodi addasrwydd staff a phobl eraill sydd mewn cysylltiad â dysgwyr ac yn cynnal cofnod o'r gwiriadau hyn
- yn hwyluso atgyfeiriadau diogelu priodol
- yn cydymffurfio â gofynion statudol a chanllawiau Llywodraeth Cymru

- yn atal ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethu, bwlio, aflonyddu ac aflonyddu rhywiol
- yn datblygu gwybodaeth dysgwyr am ymddygiadau sy'n niweidiol yn emosiynol neu'n anniogel, a dealltwriaeth ohonynt, er enghraifft meithrin perthynas amhriodol, aflonyddu rhywiol, gwahaniaethu, bwlio ac eithafiaeth
- yn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cadw'n ddiogel rhag peryglon radicaleiddio
- yn sicrhau bod pob un o'r staff ar draws darparwyr yn gwybod sut i ymateb i faterion diogelu
- yn rhannu gwybodaeth a deallusrwydd am bryderon ynghylch diogelu ar draws y bartneriaeth yn briodol
- yn sicrhau hyfforddiant diogelu perthnasol ar gyfer y staff
- yn cynnwys uwch arweinwyr ar draws y bartneriaeth i oruchwylio a sicrhau ansawdd arferion diogelu

Dylai arolygwyr sicrhau:

- bod trefniadau ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn peri pryder
- pan mae trefniadau yn peri pryder difrifol, bod arolygwyr yn cynnwys argymhelliad yn yr adroddiad a bod Estyn yn anfon llythyr lles i'r bartneriaeth yn gofyn iddi amlinellu sut bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg(ion).

**Maes Arolygu 3 – Arwain a gwella**

Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth o ran:

3.1 Cyfeiriad strategol a rheolaeth weithredol

3.2 Hunanwerthuso a gwelliant

3.3 Cynllunio a goruchwylio'r ddarpariaeth

3.4 Datblygu'r gweithlu a dysgu proffesiynol

Dylai arolygwyr ystyried yr agweddau isod yn sgil y gwahaniaeth a wnânt i gynnydd, lles a datblygiad dysgwyr.

**3.1 Cyfeiriad strategol a rheolaeth weithredol**

Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae arweinwyr:

- yn cynllunio'n strategol i sicrhau bod y bartneriaeth yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol Llywodraeth Cymru
- wedi cyfleu gweledigaeth glir ac ethos partneriaeth â nodau, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau priodol sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion dysgwyr a bodloni eu deilliannau
- yn sicrhau bod pob un o'r partneriaid yn cyfrannu at y bartneriaeth ac yn cydweithio i ddiwallu anghenion eu dysgwyr a'u cymunedau, yn lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad ac yn gyrru blaenoriaethau a gwelliant strategol
- yn gweithredu partneriaeth gydweithredol ac atebol lle mae pob un o'r partneriaid yn cyfrannu, yn gyrru blaenoriaethau a gwelliannau strategol, ac yn rhannu

arferion, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau cadarnhaol
- yn cydweithio â darparwyr ac asiantaethau addysgol eraill yn y sector i gyflawni gwelliannau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a meithrin capasiti ar gyfer gwelliant parhaus
- yn datblygu ac yn cynnal tîm effeithiol o staff, sydd wedi ymgysylltu, sy'n gosod ac yn bodloni disgwyliadau uchel iddyn nhw eu hunain a dysgwyr, ac yn modelu gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol
- yn sicrhau ansawdd a lefel staffio ac adnoddau dysgu i gyflwyno'r ddarpariaeth gynlluniedig yn effeithiol
- yn nodi risgiau i'r bartneriaeth ac yn cymryd camau amserol i'w lliniaru
- yn rheoli adnoddau i sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion uniongyrchol ac anghenion tymor hir, gan sicrhau bod penderfyniadau am wariant a chynllunio ariannol yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol ac yn cefnogi addysgu, dysgu a lles o ansawdd uchel
- yn sicrhau bod lleoedd a chyfleusterau priodol ar gael ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon
- yn sicrhau bod cyllid ychwanegol a dderbyniwyd at ddibenion penodol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn unol â'r bwriad
- yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a datblygu medrau Cymraeg
- yn cynllunio sut i ddefnyddio technolegau newydd a datblygol, fel deallusrwydd artiffisial, i wella gwaith y bartneriaeth

### 3.2 Hunanwerthuso a gwelliant

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr:

- yn casglu a dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol i lywio gwerthusiad o waith y bartneriaeth, a gwybod beth yw cryfderau'r bartneriaeth a'r meysydd i'w gwella
- yn defnyddio strwythurau llywodraethu i oruchwylio gwaith y bartneriaeth, a dwyn uwch arweinwyr i gyfrif
- yn sicrhau bod blaenoriaethau ar gyfer gwella yn cysylltu â deilliannau hunanwerthuso, yn diffinio camau perthnasol a mesuradwy gyda graddfeydd amser addas, a chyfrifoldebau wedi'u dyrannu, ac yn cefnogi'r blaenoriaethau hyn â'r adnoddau angenrheidiol
- yn gwneud gwelliannau sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau, lles a dilyniant dysgwyr, yn cynnal ansawdd uchel ac agweddau ar y ddarpariaeth y mae angen eu gwella
- yn mynd i'r afael ag argymhellion o arolygiadau blaenorol Estyn

### 3.3 Cynllunio a goruchwylio'r ddarpariaeth

Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr y bartneriaeth yn sicrhau bod y ddarpariaeth:

- yn ymateb yn briodol i flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- yn cael ei hadolygu a'i chynllunio ar y cyd â phartneriaid i sicrhau arlwy cyfoethog a chydlynus sy'n diwallu anghenion ei chymunedau
- yn cael ei chyflwyno mewn lleoliadau addas ac ar amseroedd addas, a bod cyfleoedd dysgu o bell ar gael, lle bo'n briodol
- yn cael ei marchnata'n effeithiol ac yn hygyrch i'w chynulleidfa darged

- yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr wneud cynnydd o fewn y bartneriaeth, a’r tu hwnt
- yn hyrwyddo ac yn cefnogi datblygiad medrau Cymraeg a’r defnydd o’r Gymraeg
- yn cofleidio amrywiaeth gymunedol, ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru

### 3.4 Datblygu’r gweithlu a dysgu proffesiynol

Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr:

- yn ystyried baich gwaith a lles staff, ac i ba raddau y mae unrhyw drefniadau newydd neu ddiwygiedig yn effeithio ar faich gwaith eu staff
- yn cynorthwyo staff i fyfyrio ar eu gwerthoedd, eu gwybodaeth, a’u medrau, yn cynnal ac yn diweddaru eu harbenigedd pwnc a’u harbenigedd addysgu, ac yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a’u medrau proffesiynol eraill yn barhaus
- yn rheoli perfformiad staff i’w helpu i wella’u harfer ac yn mynd i’r afael â materion tanberfformio mewn ffordd gadarn ond cefnogol
- yn sefydlu diwylliant ac ethos o ddysgu proffesiynol ar gyfer pob un o’r staff ar draws y bartneriaeth, gan sicrhau bod staff yn cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol gwerthfawr ac yn rhannu arfer dda
- yn annog ac yn cynorthwyo staff i weithio gyda sefydliadau eraill o fewn y bartneriaeth, a’r tu allan, i wella’u harfer a chynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau proffesiynol
- yn gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar effeithiolrwydd staff, cynnydd a lles dysgwyr